



Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Cyfrifon Blynyddol 2010-11



Cynnwys

	Tudalen
Sylwebaeth Reoli	3
Adroddiad ar Dâl	18
Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu	23
Datganiad o Reoli Mewnol	24
Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr	28
Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol	29
Datganiad o Lifau Arian	30
Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr	31
Nodiadau i'r Cyfrifon	32
Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru	45

Sylwebaeth Reoli

Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â'r Cyfarwyddyd a roddwyd gan Weinidogion Cymru yn unol â Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, Atodlen 1, Paragraff 10 (1) (b).

Hanes a chefnidir statudol

Sefydlwyd Swydd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru o dan Adran 1 Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 a daeth i fodolaeth ar ôl penodi'r Comisiynydd cyntaf ar 21 Ebrill 2008.

Caiff y Comisiwn ei ariannu gan Weinidogion Cymru ond mae'n weithredol annibynnol ohonynt ac yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am ddefnyddio adnoddau. Yn 2010/11, cafodd y Comisiwn werth £1.8 miliwn o gyllid i ariannu ei weithgareddau.

Prif weithgareddau

Fy amcanion i ac amcanion fy nhîm yw:

- Hybu ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn Cymru
- Hybu darparu cyfleoedd ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru a chael gwared ar wahaniaethu yn eu herbyn
- Annog arfer da o ran trin pobl hŷn yng Nghymru
- Parhau i adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd y gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

Mae rhagor o wybodaeth am waith y Comisiwn ar gael yn yr adroddiad blynyddol a gyhoeddir ar wahân i'r cyfrifon hyn yn www.olderpeoplewales.com

Adolygu'r prif weithgareddau yn 2010/11

Eleni yw blwyddyn gyntaf ein Cynllun Strategol tair blynedd – sef blwyddyn pan fo Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi gwneud cynnydd sylweddol pellach. Daw hyn ar ôl ein Cynllun Strategol interim a oedd yn llywio datblygu'r Comisiwn yn ystod 2009/10.

Gwnaethom ymgynghori â phobl hŷn yn eang o ran datblygu ein Cynllun Strategol ac rydym yn parhau i ymgysylltu â nhw o ran pob agwedd ar ein gwaith.

Mae enghreifftiau o'n gweithgareddau wedi'u hamlinellu o dan ein hamcanion isod:

Hybu ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru

Gwnaethom gydnabod a dathlu cyfraniad pobl hŷn at fywyd yng Nghymru drwy ddefnyddio llwyfannau cyhoeddus yn helaeth mewn digwyddiadau allweddol megis yr Eisteddfod Genedlaethol, Sioe Frenhinol Cymru, Cynhadledd y Ffederasiwn Rhyngwladol ar Heneiddio a thrwy'r cyfryngau. Gwnaethom wrando drwy gyfarfod â phobl hŷn unigol a chydag amrywiaeth o grwpiau buddiannau pobl hŷn ledled Cymru.

Gwnaethom herio ystrydebau negyddol ac ymgysylltu â thrafodaethau cyhoeddus ar agweddau at heneiddio drwy'r gwaith y gwnaethom ei gomisiynu gyda'r Sefydliad Materion Cymreig a arweiniodd at gyhoeddi "Ychwanegu bywyd at flynyddoedd – Ymagweddau Cymreig at bolisi heneiddio".

Gwnaethom hybu amrywiaeth o bobl hŷn i lunwyr polisïau a gwleidyddion drwy; er enghraifft, cyfarfodydd â chynrychiolwyr pob plaid wleidyddol yng Nghymru lle y gwnaethom ddatgan yr achos dros ymrwymiad i wneud newidiadau ym meysydd polisi ac arfer megis tlodi, cydraddoldeb, trafnidiaeth, cymhorthion ac addasiadau. Roeddem yn gallu rhoi adborth o'n cyfarfodydd lawer gyda phobl hŷn ledled Cymru.

Gwnaethom bwysleisio i benderfynwyr yng Nghymru ac ar lefel Llywodraeth y DU, ei bod yn hollbwysig diogelu gwasanaethau a ddarperir i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed ac sydd angen cymorth fwyaf mewn amseroedd economaidd anodd. Gwnaethom rybuddio bod yn

rhaid i unrhyw newidiadau arfaethedig i wasanaethau sy'n ymwneud â phobl hŷn sicrhau na chaiff eu diogelwch ac ansawdd gofal eu tanseilio. Gwnaethom gyfarfod â gweinidogion allweddol Llywodraeth y DU i roi sylwadau penodol ar faterion y mae pobl hŷn wedi'u codi megis diogelu Lwfans Gweini, dyfodol gofal hir dymor ac argaeledd gwybodaeth a chyngor i helpu pobl hŷn i hawlio eu hawliadau.

Gwnaethom gomisiynu ymchwil i danategu ein gwaith; roedd hyn yn cynnwys ymchwil ar agweddau at heneiddio, gwasanaethau gwybodaeth a chyngor, ac eiriolaeth a chwynion. Mae'r gwaith hwn wedi hysbysu, er enghraifft, ein Hadolygiad cyntaf, ein datganiadau cyhoeddus a phenderfyniadau am flaenoriaethau yn y dyfodol. Er syndod, dangosodd ymchwil a gynhaliwyd gan Gyngor ar Bopeth Cymru, lefel uchel o ymholiadau mewn perthynas â dyledion gan bobl hŷn, a dangosodd ymchwil Advocacy Counts 3 yr angen am gymorth eiriolaeth fwy cyson.

Drwy gasglu tystiolaeth sy'n benodol i Gymru, gwnaethom ddangos cefnogaeth gyhoeddus eang ar gyfer set cryfach o hawliau i bobl hŷn a gwnaethom gynnal trafodaethau cyhoeddus ar hyn drwy'r cyfryngau. Gwnaethom hybu Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn drwy'n datganiadau cyhoeddus gan eu gwneud yn ganolog i'n hadolygiad o ofal ysbytai.

Hybu darparu cyfleoedd ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru a chael gwared ar wahaniaethu yn eu herbyn

Gwnaethom helpu i lunio ac adeiladu ar y cyfle a gynigir gan ddeddfwriaeth drwy gyfranogi yn y Grŵp Uwch-randdeiliaid gan edrych ar y Ddeddf Cydraddoldeb dan arweiniad Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth. Drwy ymatebion ymgynghori i'r llywodraeth yn San Steffan ac yng Nghymru, gwnaethom bwysleisio pwysigrwydd gweithredu llym o ran dod â gwahaniaethu ar sail oedran i ben o ran nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau.

Daeth Deddf Cydraddoldeb 2010 i rym ar 1 Hydref 2010. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymgynghori am y dyletswyddau y dylid eu gosod ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i gael gwared ar wahaniaethau a hybu cyfle cyfartal. Dywedasom y dylai

cyrff cyhoeddus esbonio'n glir yr hyn maent yn ei wneud i gael gwared ar wahaniaethu annheg ar sail oedran yng Nghymru a rhoi cyfrif am unrhyw fethiant i fynd i'r afael ag unrhyw wahaniaethu o'r fath. Gwnaethom roi sylwadau ar agweddau oedran canllawiau y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol sydd wedi'u llunio i Gymru. Bydd hyn yn helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni'r ddyletswydd gydraddoldeb yn fwy effeithiol.

Gwnaethom nodi arfer gorau o ran darparu trafndiaeth ac atebion iddi, sy'n bodloni anghenion pobl hŷn drwy ymchwil i ddefnyddio taleb fws, llunio adroddiad a lansiad â rhanddeiliaid allweddol.

Gwnaethom annog ymgorffori Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn ac ystyried yr angen i ddod â gwahaniaethu ar sail oedran i ben mewn cynlluniau ar gyfer diwygio talu am ofal yn dilyn ymchwil i ofal cymdeithasol, sylwadau i lunwyr polisïau a chyfrannu at Gomisiwn Llywodraeth y DU gan edrych ar ddyfodol talu am ofal. Gwnaethom gynnal cyfarfod ymgynghori Cymru, gan sicrhau cyfraniad rhanddeiliaid allweddol yn ogystal â chynrychiolwyr pobl hŷn.

Annog arfer gorau o ran trin pobl hŷn yng Nghymru

Gwnaethom ddatblygu ein nod o nodi arfer gorau o ran atal achosion ysbyty y gellid eu hosgoi drwy ymchwil ar y sail dystiolaeth bresennol ar gyfer buddsoddi mewn mesurau ataliol. Gwnaethom drefnu seminar ar freuder ymhlith pobl hŷn yn cynnwys llunwyr polisïau ac ymarferwyr yn edrych ar yr hyn rydym yn ei wybod sy'n gweithio, ble mae angen gwaith pellach a'r potensial am ymagwedd Cymru at freuder. Bydd adroddiad y seminar hon yn nodi'r camau nesaf sydd eu hangen a chaiff ei gyhoeddi yn 2011/12.

Gwnaethom ddod o hyd i dystiolaeth am brofiad pobl hŷn mewn lleoliadau gofal penodol a'i hystyried drwy gynnal Adolygiad o driniaeth pobl hŷn mewn ysbytai yng Nghymru mewn perthynas ag urddas a pharch. Cyhoeddwyd yr Adolygiad ym mis Mawrth 2010 a chyflwynodd adroddiad ac argymhellion ym mis Mawrth 2011. Cynhaliwyd yr Adolygiad drwy Banel Ymchwilio arbenigol a oedd yn edrych ar arfer da ac arfer gwael. Derbyniwyd tystiolaeth ysgrifenedig gan bobl hŷn, eu teuluoedd, gofalmwyr a phobl sy'n gweithio yn y GIG ac ymwelodd y Panel â 16 o ysbytai ledled Cymru. Mae'r adroddiad wedi cael croeso mawr.

Cafodd yr adroddiad lawer o sylw gan y cyfyngau. Mae cynllun dilynol clir ar waith i sicrhau'r effaith fwyaf posibl ar gyfer yr argymhellion.

Gwnaethom ddatblygu ymchwil i edrych ar arfer da ac arfer gwael o ran cau cartrefi gofal mewn partneriaeth â Phrifysgol Abertawe a gwnaethom drefnu dwy seminar ym Mangor ac yn Abertawe lle y cafodd canfyddiadau interim eu cyflwyno i benderfynwyr ac ymarferwyr lleol. Gwnaethom gefnogi pobl hŷn a'u teuluoedd mewn nifer o sefyllfaoedd lle yr oedd cartrefi gofal yn cael eu hystyried i'w cau a rhoesom sylwadau ar eu rhan i Awdurdodau Lleol a'r Uchel Lys. Yn benodol, gwnaethom bwysleisio pwysigrwydd hawliau a lles y bobl hŷn eu hunain a mynediad i wasanaethau eiriolaeth annibynnol. Arweiniodd ein hymyrraeth at ystyried y materion hyn yn fanylach. Gwnaethom alw i welliannau gael eu rhoi ar waith yn effeithiol o ran darparu cymhorthion ac addasiadau drwy sylwadau i wleidyddion o bob plaid yn seiliedig ar ein polisi briffio 'Troï'r Dudalen'.

Parhau i adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd y gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru

Gwnaethom fonitro'r ddeddfwriaeth bresennol a'r ddeddfwriaeth arfaethedig sy'n effeithio ar les pobl hŷn yng Nghymru drwy ein cyfranogiad ym Mwrdd y Prosiect ar gyfranogiad oedolion a sefydlwyd gan i Ddirprwy Weinidog dros asanaethau Cymdeithasol.

Gwnaethom drefnu ymweliad â'r Alban i edrych ar y gwersi i'w haddysgu o roi deddfwriaeth Cefnogi a Diogelu Oedolion yr Alban ar waith.

Gwnaethom lunio adroddiad sydd wedi hysbysu meddwl yng Nghymru ac a fydd o ragor o gymorth yn 2011/12.

Gwnaethom alw am welliannau i ddeddfwriaeth yn y maes hwn gan gyfrannu at waith Comisiwn y Gyfraith ar ddiwygio arfaethedig ar gyfraith gofal cymdeithasol i oedolion.

Gwnaethom ymgysylltu ag eraill i ystyried digonolrwydd y ddeddfwriaeth bresennol ar gyfer diogelu oedolion drwy lunio adroddiad o'r gynhadledd a gynhaliwyd yn 2009/10 mewn partneriaeth â Chomisiwn y Gyfraith ac Age Cymru, a thrwy sylwadau i wleidyddion a llunwyr polisïau.

Gwnaethom helpu esbonio'r ddeddfwriaeth bresennol a oedd â'r

nod o ddiogelu buddiannau pobl hŷn er mwyn ei gwneud yn haws ei defnyddio a nodi bylchau drwy gyhoeddi canllaw i'r gyfraith wedi'i anelu at ymarferwyr rheng flaen a'r cyhoedd.

Mae ymatebion cychwynnol wedi bod yn gadarnhaol iawn a chaiff lansiad ffurfiol y canllaw ei gynnal ar 15 Mehefin, sef Diwrnod Ymwbyddiaeth Fyd-eang o Gam-drin Pobl Hŷn.

Caniatáu cyflawni'r amcanion a restrir uchod mewn ffyrdd sy'n briodol, rheolaidd, doeth ac economaidd, gwneud defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau a nodi a rheoli risgiau

Gwnaethom ymgysylltu â phobl hŷn ar hyd a lled Cymru drwy gyfarfodydd â chynrychiolwyr sefydliadau i bensiynwyr, ymweliadau niferus â grwpiau, prosiectau a chyfarfodydd â phobl hŷn ar hyd a lled Cymru, yn ogystal â chyswllt â phobl hŷn unigol drwy ein Tîm Gwybodaeth ac Ymholiadau.

Arweiniodd ein galwad am dystiolaeth ar gyfer ein hadolygiad o ysbytai at dros 160 darn o dystiolaeth ysgrifenedig gan bobl hŷn a'u teuluoedd.

Gwnaethom ymateb i ymholiadau a chyswllt gan bobl hŷn. Gwnaethom gofnodi data allweddol am y cyswllt hwn drwy ein system rheoli busnes a llunio ystadegau ar ystod a natur yr ymholiadau hyn er mwyn llywio ein gwaith; nododd hyn feysydd lle roedd angen i ni weithredu. Roedd pobl hŷn yn edrych am ystod o gyngor a chymorth ac roeddem yn gallu cefnogi llawer o'r galwadau hyn yn uniongyrchol drwy ymyrryd yn achos anghydfod.

Er bod gennym y pŵer i gynorthwyo pobl hŷn o ran gwneud cwynion, mae ymyrryd yn achos anghydfod yn wasanaeth lle rydym yn ymgysylltu â phobl hŷn a darparwyr gwasanaethau i geisio datrys eu problemau. Gall hyn helpu pobl hŷn i ddod o hyd i atebion gan osgoi prosesau cwynion hirfaith.

Rhoddodd pob un o'n hymholiadau sylfaen dystiolaeth gadarn am faterion sy'n effeithio ar bobl hŷn, rydym wedi'i defnyddio i helpu i greu ein cynllun gwaith ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod.

Gwnaethom ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol eraill a gwrando

arnynt ar hyd a lled Cymru drwy gyfarfodydd rheolaidd, cyflwyniadau mewn digwyddiadau a lle y bo'n briodol, cydweithio. Er enghraifft, cynhaliwyd cyfres o drafodaethau gyda Byrddau Iechyd a chynrychiolwyr y proffesiwn iechyd o ran yr ymagwedd at gyhoeddi canfyddiadau ein Harolygiad o Ysbytai; gwnaethom gydweithio â'r Sefydliad Materion Cymreig, Age Cymru, Cyngor ar Bopeth Cymru, a'r Eglwys yng Nghymru hefyd. Aethom i gyfarfodydd y Fforwm Partneriaeth Genedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn a'r Gynghrair Henoed a gwnaethant gymryd rhan yn Senedd Pensiynwyr y DU, yn ogystal â bod yn aelod gweithgar ar Fforwm Ymgynghorol y DU ar Heneiddio.

Gwnaethom ategu ein sail dystiolaeth drwy gynnal ystod eang o arolygon ac ymchwil ar faterion megis talu am ofal, eiriolaeth (mewn partneriaeth ag Age Cymru a hefyd Prifysgol Abertawe), ymgysylltu â phobl hŷn, cyngor ar ddyledion (mewn partneriaeth â Chyngor ar Bopeth Cymru) a gwasanaethau gwybodaeth a chyngor.

Mae'r gwerthusiad annibynnol tair blynedd o berfformiad y Comisiwn gan ARAD Consulting wedi datblygu yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Comisiwn wedi cael adborth rheolaidd o'r broses werthuso a'i ddefnyddio, er enghraifft, i asesu cynnydd y Cynllun Strategol ac awgrymu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â sefydliadau eraill.

Adolygu Blwyddyn Ariannol 2010/11

Mae'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn dangos gwariant net ar ôl llog ar gyfer 2010/11 o £1.845 miliwn (2009/10 £1.440 miliwn).

Cyfanswm cronfeydd wrth gefn diwedd y flwyddyn oedd £696k. Mae'r Comisiwn yn bwriadu defnyddio'r cronfeydd wrth gefn hyn yn effeithiol i gefnogi rhaglenni anghylchol o waith yn 2011/12 ac yn y blynyddoedd sydd i ddod. Prif ddefnydd arfaethedig cronfeydd wrth gefn yw datblygu sail dystiolaeth o ymchwil i feysydd pryder a godwyd gan bobl hŷn yng Nghymru. Yna bydd y dystiolaeth hon yn dylanwadu ar ffocws y defnydd arfaethedig o bwerau o fewn y Ddeddf, gan y Comisiwn dros y blynyddoedd sydd i ddod.

Mae hefyd yn hanfodol bod y Comisiwn yn parhau i gadw lefel resymol o gronfeydd wrth gefn i gyflawni swyddogaethau'r Ddeddf sy'n gallu codi o geisiadau heb eu cynllunio sy'n cael eu gwneud gan bobl hŷn yng Nghymru o ran y gwasanaethau maent yn eu derbyn, er enghraifft, drwy archwilio a chymorth.

Edrych ymlaen at 2011/12

Bydd y Comisiynydd a'r tîm yn datblygu defnydd o'n pwerau ymhellach i graffu, herio, adolygu, archwilio a chynorthwyo. Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau y caiff lleisiau pobl hŷn eu clywed, y caiff gwasanaethau eu cynnal ac na chaiff y tir gwerthfawr a enillir ei golli.

Bydd prif feysydd gwaith 2011-12 yn cynnwys:

- Gwahaniaethu ar Sail Oedran, gan gynnwys rhoi Deddf Cydraddoldeb 2010 ar waith.
- Gwasanaethau gwybodaeth a chyngor; yn enwedig â phwyslais ar dlodi pensïnwyr. Drwy hyn, rydym am sicrhau mynediad effeithiol i wybodaeth a chyngor perthnasol am fudd-daliadau ychwanegol a chymorth o ran rheoli arian.
- Gofal cymdeithasol mewn lleoliadau gofal cartref a lleoliadau preswyl.

- Trefniadau ar gyfer eiriolaeth a chwythu'r chwiban.
- Gwaith dilynol i weithgareddau 2010-11 ac argymhellion y Comisiynydd a geir yn yr Adolygiad o drin pobl hŷn mewn lleoliad ysbyty o ran urddas a pharch.

Mae'r Comisiynydd yn disgwyl cyflwyno'r gwaith hwn drwy ei staff cyflogedig, ond bydd hefyd yn defnyddio arbenigwyr ac ymchwilwyr arbenigol a sefydliadau eraill i gyfrannu at gyflawni pum amcan y Cynllun Strategol.

Amlinellir cyflwyniadau'r flwyddyn ddiwethaf yn fanylach yn Adroddiad Statudol y Comisiynydd ar gyfer 2010/11 a fydd ar gael ar ein gwefan www.olderpeoplewales.com.

Mae copïau o'n Cynllun Strategol a chyhoeddiadau eraill gan gynnwys ein hymchwil a'n datganiadau i'r wasg ar gael hefyd ar ein gwefan neu mewn fformatau hygyrch eraill ar gais o'n swyddfeydd.

Gweithio yn y Comisiwn

Penodwyd Ruth Marks fel Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar 21 Ebrill 2008 am dymor pedair blynedd. Yr Uwch Dîm Rheoli a oedd yn gweithio gyda'r Comisiwn yn ystod 2010/11 oedd:

Enw	Swydd	Penodwyd
Sarah Stone	Dirprwy Gomisiynydd	10 Tachwedd 2008
Julia Lewis	Pennaeth Gwybodaeth ac Adnoddau	1 Tachwedd 2008
Alun Thomas	Pennaeth Adolygu, Archwilio a Pholisi	1 Gorffennaf 2009
Alison Phillips	Pennaeth Cyllid, AD a Llywodraethu Corfforaethol	9 Tachwedd 2009

Mae'r Adroddiad ar Dâl yn y cyfrifon hyn yn cynnwys gwybodaeth am hawliadau cyflog a pensiwn yr unigolion hyn a enwir.

Yn ystod y flwyddyn gwnaethom gyflogi cyfartaledd o 27.04 o staff cyfwerth ag amser cyflawn.

Caiff cyfleoedd ar gyfer dysgu a datblygiad eu hybu ac yn ystod 2010/11, cwblhaodd pob aelod o staff arfarniad fel rhan o'n polisi rheoli perfformiad. Roedd hyfforddiant a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys ymdrin â galwadau, diogelu oedolion sy'n agored i niwed, cyflwyno a gwerthuso prosiectau, gweithio gyda'r cyfryngau, a diogelwch gwybodaeth gan gynnwys diogelu data.

Yn ystod 2010/11, y gyfradd absenoldeb gyfartalog am bob aelod o staff o fewn y Comisiwn oedd 2.18 diwrnod. Rydym yn ymrwymedig i iechyd a lles ein staff ac mae gennym bolisi cynhwysfawr ar absenoldeb salwch.

Gwnaethom ennill statws efydd am y Wobr Iechyd Gweithle Bach yn ystod y flwyddyn; a gwnaethom gynnydd sylweddol o ran ennill statws Buddsoddwyr Mewn Pobl.

Trefniadau Pensiwn

Mae'r Comisiynydd a staff a gyflogir yn uniongyrchol yn gymwys i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Amlinellir rhagor o fanylion yn yr Adroddiad ar Dâl a'r Cyfrifon.

Cyfle Cyfartal

Rydym yn ymrwymedig i gyfle cyfartal ac yn awyddus i gyflogi gweithlu amrywiol. Caiff yr holl geisiadau eu hystyried ar y sail y dylai holl ymgeiswyr y swydd gael cyfle cyfartal am gyflogaeth a datblygiad ar sail eu gallu, cymwysterau ac addasrwydd i weithio.

Ni ddylai unrhyw ymgeisydd am swydd na gweithiwr gael triniaeth lai ffafriol ar sail oedran, hil, lliw, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, crefydd, cyfrifoldebau teuluol/domestig na phatrymau gwaith ac ni ddylai unrhyw unigolyn fod o dan anfantais oherwydd amodau neu ofynion na ellir dangos eu bod yn gyfiawn.

Llywodraethu a Rheoli Risg

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu fel yr Unig Aelod Corfforaethol ac yn gyfrifol yn bersonol am arwain a rheoli'r sefydliad fel Swyddog Cyfrifyddu ond gall awdurdodi cyflawni ei swyddogaethau i unrhyw aelod o staff. Bydd y Diprwy Gomisiynydd, Sarah Stone, yn cyflawni ei swyddogaethau os na fydd y Comisiynydd yn gallu gweithredu am unrhyw reswm ar unrhyw adeg.

Mae'r Uwch Dîm Rheoli'n darparu arweinyddiaeth gorfforaethol i'r Comisiwn cyfan ac yn cynorthwyo'r Comisiynydd i gyflawni ei chyfrifoldebau statudol mewn ffordd sy'n gyson â'r safonau uchel disgwylidig gan gorff â ariennir â chyllid cyhoeddus. Bydd hyn yn cynnwys cynghori'r Comisiynydd ar:

- Ddatblygu nodau ac amcanion y Comisiwn;
- Dyrannu ein hadnoddau ariannol, dynol ac adnoddau eraill i gyflawni ein nodau a'n hamcanion;
- Asesu a rheoli risg;
- Dulliau rheoli mewnl sydd eu hangen yn y Comisiwn gan gynnwys polisïau a gweithdrefnau;
- Perfformiad y Comisiwn yn erbyn yr amcanion a amlinellir yng Nghynllun Strategol 2010-2013.

Caiff cyfarfodydd tîm staff cyfan eu cynnal bob mis i drafod materion sy'n berthnasol ac o ddiddordeb i bob aelod o staff ac archwilio materion penodol y nodir bod angen amser penodol ar eu cyfer.

Mae rheoli risg yn ystyriaeth allweddol o ran gweithgareddau'r Comisiwn. Mae ein polisi rheoli risg yn amlinellu'r ffordd y caiff risgiau y mae'r Comisiwn yn eu hwynebu eu nodi, eu gwerthuso a'u rheoli. Mae'r polisi rheoli risg yn ei gwneud yn ofynnol cynnal cofrestr risg, ac mae'r Pwyllgor Archwilio a'r Uwch Dîm Rheoli'n parhau i'w hadolygu'n rheolaidd. Mae aelod o'r Uwch Dîm Rheoli yn berchen ar bob risg a nodir a chaiff y gofrestr risg ei rhannu gyda phob aelod o staff.

Y Pwyllgor Archwilio

Mae'r Comisiynydd wedi sefydlu Pwyllgor Archwilio i gefnogi'r Comisiynydd fel Swyddog Cyfrifyddu o ran monitro ac adolygu llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a systemau rheoli mewnol.

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys pedwar aelod annibynnol, pobl hŷn, â chryn brofiad o sefydliadau sector cyhoeddus a thrydydd sector yng Nghymru a'r DU. Fe'u penodwyd am dair blynedd o 20 Mawrth 2009.

Y rhain yw:

- Gordon Lishman (Cadeirydd)
- Kenneth Jones
- Eifion Pritchard
- Ian Summers

Aeth dau aelod o'r Pwyllgor i'r digwyddiad Arfer Gorau ar gyfer Pwyllgorau Archwilio mewn Llywodraeth a drefnwyd gan yr Ysgol Llywodraethu Genedlaethol ym mis Rhagfyr 2010.

Cynaliadwyedd Amgylcheddol

Mae'r Comisiwn yn ymrwymedig i arferion amgylcheddol da. Amlinellir enghreifftiau o sut rydym yn mynd i'r afael ag arweinyddiaeth amgylcheddol da isod:

- **Defnyddio ynni** - fel un o nifer o denantiaid o fewn bloc swyddfa fodern a bach, nid yw'n bosibl rheoli cyfleusterau'r dŵr, gwres a goleuadau'n llawn. Fodd bynnag, mae falfiau ar bob un o'r rheiddiaduron sydd wedi'u rheoli â thermostat, bylbiau golau arbed ynni, a goleuadau sy'n sensitif i symudiadau mewn rhai rhannau o amgylchedd y swyddfa.
- **Cludiant Cyhoeddus** - lle bynnag y bo'n briodol, anogir defnyddio cludiant cyhoeddus.
- **Defnyddio cerbydau** - nid yw'r swyddfa'n gweithredu unrhyw gerbydau ond mae'n annog defnyddio cerbydau llog ar gyfer teithiau hirach er mwyn sicrhau cymaint o effeithlonrwydd â phosibl. Caiff staff eu hannog i rannu cludiant ar gyfer teithiau swyddogol lle y bo'n ymarferol.
- **Rheoli papur** - Caiff staff eu hannog i asesu p'un a yw copi papur yn angenrheidiol ac i ddefnyddio argraffu du a gwyn, dwy ochr lle y bo'n bosibl. Mae defnydd mewnwyd swyddfa'n caniatáu gweld gwybodaeth heb yr angen am systemau dosbarthu papur.
- **Gwaredu Gwastraff** - mae gweithdrefnau ar waith i ailgylchu deunyddiau yn unol â system gasglu ein Hawdurdod Lleol, gan gynnwys papur, cardbord a rhai mathau o blastig. Caiff papur yn cynnwys gwybodaeth sensitif ei gwaredu drwy gyfleusterau ailgylchu gwastraff cyfrinachol oherwydd y rhwymedigaeth i gadw cyfrinachedd o ran ein deddfwriaeth alluogi. Cafodd 2.9 coeden eu hachub yn 2010/11 o ailgylchu gwastraff cyfrinachol.

Diogelu data personol

Mae angen i ni adrodd ar unrhyw golli, datgelu di-awdurdod ac unrhyw waredu annigonol o ran data personol a ddiogelir.

Gallwn adrodd nad oedd unrhyw achosion o golli, datgelu di-awdurdod neu unrhyw waredu annigonol o ran data personol a ddiogelir yn ystod 2010/11.

Polisi ar Dâl

Nod y Comisiwn yw cydymffurfio â Chod Taliadau Gwell Llywodraeth y DU. Y targed yw i'r tâl gael ei wneud yn unol â thelerau tâl cytûn neu 30 diwrnod ar ôl derbyn anfonebau nad oes dadl yn eu cylch am nwyddau a gwasanaethau a dderbyniwyd.

98.34% oedd perfformiad tâl cyfartalog y flwyddyn a dalwyd ar amser (100% yn 2009/10). Ni thalwyd unrhyw log mewn perthynas â thaliadau hwyr.

Digwyddiadau a gododd ar ôl y Cyfnod Adrodd

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau sylweddol yn codi rhwng diwedd y flwyddyn a chwblhau'r cyfrifon hyn.

Archwilio

Caiff y Cyfrifon hyn eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â pharagraff 12, Atodlen 1 Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Y gost gytûn ar gyfer archwilio cyfrifon 2010/11 yw £14k.

Penodwyd Deloitte o 1 Ebrill 2010 i ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol i'r Comisiynydd yn 2010/11.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd Deloitte adolygiadau i lywodraethu, rheoli risg, systemau ariannol, diogelu data a rhyddid gwybodaeth, caffael a rhoi'r cynllun strategol ar waith; rhoi lefel sylweddol o sicrwydd ym mhob maes. Gwnaethant waith dilynol hefyd o ran rhoi'r argymhellion a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol ar waith

Datgelu Gwybodaeth Archwilio Berthnasol

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth berthnasol am archwilio ac i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth hon hefyd.

Ruth S. Marks

Ruth Marks

Comisiynydd a Swyddog Cyfrifyddu

28 Gorffennaf 2011

Adroddiad ar Dâl

Polisi ar Dâl

Caiff cyflog y Comisiynydd ei bennu gan Weinidogion Cymru yn unol ag Atodlen 1(3), Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. O dan delerau'r penodiad hwn, mae codiadau blynyddol yn dilyn y dyfarniad canran a wneir gan Gorff Adolygu Cyflogau Uwch ac mae'r Comisiynydd hefyd yn gymwys i ymuno â Phrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Caiff cyflog uwch aelodau o staff a gyflogir yn uniongyrchol ei bennu gan y Comisiynydd ar ôl cynnal adolygiad cyflog ffurfiol bob blwyddyn sy'n asesu unrhyw newidiadau sylweddol i'r rôl, eu cyfraniad at amcanion strategol y Comisiwn ac effaith y newid ar swyddi eraill yn y Comisiwn ac asesu cyfraddau marchnad ehangach ar gyfer swyddi tebyg mewn sefydliadau cyffelyb eraill.

Ni dderbyniodd y Comisiynydd nac unrhyw aelod o staff arall fudd-daliadau mewn nwyddau.

Contractau Gwasanaeth

Caiff aelodau parhaol o staff eu penodi ar y telerau a'r amodau a osodir gan y Comisiynydd, ar sail cystadleuaeth deg ac agored ond maent hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer amgylchiadau pan fo modd penodi fel arall.

Mae'r egwyddorion hyn yn unol â threfniadau'r gwasanaeth sifil. Nid yw staff yn aelodau o'r Gwasanaeth Sifil ond mae ganddynt hawl i ymaelodi â Phrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS).

Oni nodir yn wahanol isod, bydd gan staff a gwmpesir yn yr adroddiad hwn benodiadau tymor agored. Ni fydd unrhyw oedran ymddeol gorfodol yn nhyb y Comisiwn, ond bydd rheolau PCSPS ar oedran pensiwn cynharaf yn berthnasol.

Mae dulliau arfarnu perfformiad wedi'u datblygu i sicrhau y caiff cyfraniad gweithwyr unigol ei gynnal ar lefel briodol ar bob cam o'u cyflogaeth gyda'r Comisiwn.

Byddai dod â swydd i ben yn gynnar, ac eithrio ar gyfer camymddwyn, yn arwain at yr unigolyn yn cael iawndal fel y'i hamlinellir o dan Gynllun lawndal y Gwasanaeth Sifil.

Cyflog a Hawliadau Pensiwn

*Mae'r adran hon yn destun archwiliad gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae'r adrannau canlynol yn darparu manylion am fuddiannau tâl a phensiwn y Comisiynydd ac uwch aelodau o staff.

Enw a theitl	Cyflog 2010/11	Cyflog 2009/10	Cynydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfrandaliad cysylltiedig 65 oed	Cyfanswm pensiwn a gronwyd ar 65 oed a chyfrandaliad cysylltiedig ar 31/3/11	CETV ar 31/3/10	CETV ar 31/3/11	Cynydd gwirioneddol mewn CETV
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Ruth Marks	91	91	2	8	55	80	19
Comisiynydd (a benodwyd o 21/04/08)							
Sarah Stone	63	57	1	3	19	35	13
Dirprwy Gomisiynydd (cyflogwyd o 10/11/08)							
Julia Lewis	47	43	1	5	54	76	16
Pennaeth Gwybodaeth ac Adnoddau (cyflogwyd o 1/11/08)							
Alun Thomas	47	34	2	27	80	93	5
Pennaeth Adolygu, Archwilio a Pholisi, (cyflogaeth o 1/7/09)		** (45)					
Alison Phillips	47	18	1	2	2	9	5
Pennaeth Cyllid, AD a Llywodraethu Corfforaethol (cyflogwyd o 9/11/09)		** (45)					

**Y symiau a ddangosir yn y cromfachau uchod yw'r cyflog cyfwerth ag amser llawn

*** Yn natganiad cyllideb y DU dyddiedig 22 Mehefin 2010, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys o 1 Ebrill 2011, y byddai'r Llywodraeth yn defnyddio'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) ar gyfer mynegeio budd-daliadau a chredydau treth; ac y byddai hyn yn berthnasol i bensiynau gwasanaeth cyhoeddus drwy'r cyswllt statudol i fynegeio Ail Bensiwn y Wladwriaeth. Mae'r CETV ar 31/3/10 a 31/3/11 wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio'r ffactorau newydd, er cysondeb. Felly mae'r CETV ar 31/3/10 yn wahanol i'r ffigur cyfatebol yn adroddiad y llynedd a gyfrifwyd gan ddefnyddio'r ffactorau blaenorol.

Cyflogau yn y tabl uchod yw'r swm a enillwyd yn y flwyddyn ariannol ac maent yn cynnwys yr holl dâl sy'n daladwy. Nid ydynt yn cynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol na Phensiwn.

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf, a asesir gan actiwari, buddion y cynllun pensiwn sy'n cael eu cronni gan aelod mewn cyfnod amser penodol. Buddion a gronnir yw gwerth y buddion a phensiwn unrhyw briod sy'n daladwy o dan y cynllun.

Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn arall neu drefniant pan fo'r aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion maent wedi'u cronni yn eu cynllun blaenorol.

Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm aelodaeth y cynllun pensiwn, nid yn unig eu gwasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol a gronnir i'r aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol o gost iddynt eu hunain.

Caiff CETV ei gyfrifo o fewn y canllawiau a'r fframwaith a ragnodir gan Sefydliad a Chyfadran Actiwariaid ac nid ydynt yn ystyried unrhyw leihad gwirioneddol na phosibl i fuddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Gydol Oes a allai fod yn ddyledus pan gaiff buddion pensiwn eu hawlio.

Cynnydd Gwirioneddol mewn CETV

Mae'r cynnydd gwirioneddol mewn CETV yn adlewyrchu'r cynnydd a ariennir i bob pwrpas gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn a gronnir oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a delir gan y cyflogwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddir o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Pensiynau

Darperir buddion pensiwn i'r Comisiynydd a staff a gyflogir yn uniongyrchol drwy drefniadau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS).

Mae'r PCSPS yn gynllun buddion diffiniedig amlgyflogwyr heb ei ariannu ond ni all swyddfa'r Comisiynydd nodi ei chyfran hi o'r asedau a'r atebolrwyd tanategol.

Gwnaeth actiwari'r cynllun brisio'r cynllun ar 31 Mawrth 2007. Mae manylion i'w gweld yng nghyfriflyfrau Swyddfa'r Cabinet: Pensiynau Sifil (www.civilservice.gov.uk/my-civil-service/pensions).

Ar gyfer 2010/11, roedd cyfraniadau cyflogwyr yn daladwy ar un o'r pedair cyfradd yn yr ystod 16.7% i 24.3% o gyflog pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae Actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Caiff cyfraddau'r cyfraniadau eu pennu i dalu cost budd-daliadau sy'n cronni yn ystod 2010-11 i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol, ac nid y budd-daliadau a delir yn ystod y cyfnod hwn i'r pensiynwyr presennol.

Gall gweithwyr fod yn rhan o un o dri chynllun buddion statudol diffiniedig 'cyflog terfynol' (classic, premium a classic plus) neu nuvos, sef cynllun cyfartaleddau gyrfaol. Ni chaiff y cynlluniau eu hariannu a chaiff cost buddion ei thalu gydag arian a bleidleisir gan Senedd y DU bob blwyddyn.

Caiff pensiynau sy'n daladwy o dan y cynlluniau hyn eu cynyddu bob blwyddyn yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Dewisiodd aelodau newydd yn ymuno rhwng 1 Hydref 2002 a 29 Gorffennaf 2007 rhwng aelodaeth â threfniant rhanddeiliaid premiwm neu 'brynu arian' gyda chyfraniad sylweddol gan gyflogwyr (cyfrif partneriaeth bensiw).

Gall aelodau newydd ar 30 Gorffennaf 2007 neu ar ôl hynny ymuno â chynllun nuvos neu ddewis cyfrif partneriaeth bensiw.

Caiff cyfraniadau cyflogwyr eu pennu ar gyfradd o 1.5% o enillion pensiynadwy ar gyfer Classic a 3.5% ar gyfer Premium, Classic Plus a nuvos. Mae buddion mewn Classic yn cronni ar gyfradd o 1 rhan o 80 o'r cyflog pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn gwasanaeth.

Yn ogystal, mae cyfrandaliad sy'n cyfateb i bensiwn tair blynedd yn daladwy ar ôl ymddeol. Ar gyfer Premium, mae buddion yn cronni ar gyfradd o 1 rhan o 60 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn gwasanaeth.

Yn annhebyg i Classic, nid oes unrhyw gyfrandaliad fel mater o drefn, ond gall aelodau gymudo peth o'u pensiwn i ddarparu cyfrandaliad. Mae Classic Plus yn amrywiad ar Premium yn ei hanfod, gyda buddion o ran gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel Classic ar y cyfan. Mae Nuvos yn gynllun cyfartaleddau gyrfaf lle mae buddion yn cronni ar gyfradd o 2.3% o gyflog ym mhob blwyddyn a chaiff y pensiwn a gronnir ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau.

Ym mhob achos, gall aelodau ddewis cymudo peth pensiwn am gyfrandaliad hyd at y terfynau a osodir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae cyfrif y pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn i randdeiliaid. Mae'n cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylweddol o rhwng 3% a 12.5% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) at gynnyrch pensiwn rhanddeiliaid a ddewisir gan y gweithiwr.

Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu ond lle mae'n cyfrannu, bydd y cyflogwr yn talu arian cyfatebol o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr).

Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% pellach o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth neu ymddeol oherwydd iechyd gwael).

Mae rhagor o fanylion am drefniadau PCSPS ar gael ar y wefan www.civilservice.gov.uk/my-civil-service/pensions

Ruth S. Marks

Ruth Marks

28 Gorffennaf 2011

Comisiynydd a Swyddog Cyfrifyddu

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, mae'r Comisiynydd, fel y Swyddog Cyfrifyddu, wedi paratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf a'r sail a amlinellir yn y Cyfarwyddyd ar Gyfrifon a roddwyd gan Weinidogion Cymru.

Caiff cyfrifon eu paratoi ar sail cronni ac mae'n rhaid iddynt adlewyrchu materion Comisiynydd Pobl Hŷn yng Nghymru a'i wariant net, sefyllfa ariannol, newidiadau o ran ecwiti trethdalwyr a llifau arian ar gyfer y flwyddyn ariannol yn wir ac yn deg.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Comisiynydd gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth ac yn benodol i:

- Ddilyn y Cyfarwyddyd ar Gyfrifon a roddwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifon a datgelu perthnasol, a rhoi polisiau cyfrifyddu addas ar waith yn gyson;
- Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- Datgan p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol fel y'u hamlinellir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a datgelu ac esbonio unrhyw wariant sylweddol yn y cyfrifon a
- pharatoi'r cyfrifon ar sail pryder parhaus.

Yn rhinwedd paragraff 11, atodlen 1 Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, y Comisiynydd yw Swyddog Cyfrifyddu ei swyddfa. Amlinellir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a chysondeb cyllid y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdanynt, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau'r Comisiwn mewn memorandwm a roddwyd gan y Trysordy.

Datganiad o Reoli Mewnol

Cwmpas Cyfrifoldeb

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am gynnal system gadarn o reoli mewnol sy'n ategu cyflawni nodau ac amcanion Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (y Comisiwn) gan ddiogelu cyllid ac asedau cyhoeddus yr wyf yn gyfrifol amdanynt yn bersonol, yn unol â'r cyfrifoldebau a drosglwyddwyd i mi yn Rheoli Arian Cyhoeddus.

Er fy mod yn annibynnol i Lywodraeth Cymru, rwyf wedi cynnal cyfarfodydd rheolaidd yn ystod y flwyddyn gyda Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru ar y materion hyn.

Pwrpas y system rheoli mewnol

Dyluniwyd y system rheoli mewnol i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na chael gwared ar bob risg o fethiant i gyflawni nodau ac amcanion; felly gall roi sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn unig ac nid sicrwydd llwyr.

Mae'r system rheoli mewnol yn seiliedig ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni nodau ac amcanion y Comisiwn, i werthuso'r tebygolrwydd o wireddu'r risgiau hynny a'r effaith os cânt eu gwireddu, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.

Mae'r system rheoli mewnol wedi bod ar waith yn y Comisiwn am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a chyfrifon ac mae yn unol â chanllawiau'r Trysordy.

Caiff penderfyniadau ariannol a gweithdrefnol allweddol y Comisiwn o ddydd i ddydd eu gwneud naill ai gennyf innau, gan yr Uwch Dîm Rheoli neu gyda'm cytundeb i, gan aelodau unigol o'r Uwch Dîm Rheoli neu staff ag awdurdod dirprwyedig.

Gallu i ymdrin â risg

Yr wyf i a'm Huwch Dîm Rheoli'n parhau i wella system rheoli mewnol y Comisiwn i sicrhau bod y Comisiwn yn gallu nodi, asesu a rheoli risg yn effeithiol. Caiff y broses hon ei goruchwyllo gan y Pwyllgor Archwilio.

Mae system rheoli mewnol y Comisiwn yn seiliedig ar fframwaith o wybodaeth reoli, polisiau a gweithdrefnau ariannol a gweinyddol, gan gynnwys didoli dyletswyddau'n briodol. Yn benodol, mae'n cynnwys:

- cyfarfodydd rheolaidd yr Uwch Dîm Rheoli i reoli ac adolygu cynllunio strategol a gweithredol ac i adolygu a monitro perfformiad yn erbyn amcanion, targedau a chyllidebau;
- cyfarfodydd rheolaidd yr Uwch Dîm Rheoli i nodi a monitro rheoli risgiau;
- cwblhau dadansoddiad o anghenion dysgu a datblygu a rhoi cynllun ar waith ar gyfer pob aelod o staff yn y Comisiwn a'r Pwyllgor Archwilio i fodloni anghenion a nodir;
- adroddiadau rheolaidd i'r Uwch Dîm Rheoli a deiliaid cyllidebau eraill ar feysydd gwariant allweddol.

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio bedair gwaith yn ystod y flwyddyn a chynghorodd ar ddigonolrwydd trefniadau archwilio mewnol ac allanol, ymatebion rheolwyr i argymhellion archwiliadau ac mewn perthynas â llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a materion rheoli mewnol.

Y fframwaith risg a rheoli

Mae rheoli risg yn ystyriaeth allweddol o ran gweithgareddau'r Comisiwn gan gynnwys yr elfennau canlynol:

- Diwygiwyd y polisi rheoli risg yn ystod 2010/11 yn dilyn adolygiad gan fy archwilwyr mewnol. Mae hwn yn amlinellu'r ffordd y caiff y risgiau y mae'r Comisiwn yn eu hwynebu eu nodi, eu gwerthuso a'u rheoli.
- Mae'r polisi rheoli risg yn ei gwneud yn ofynnol cynnal cofrestr risg, a gaiff ei hadolygu'n rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio a'r Uwch Dîm Rheoli. Cafodd fformat adrodd y Gofrestr Risg ei gwella yn ystod 2010/11.
- Mae aelod o'r Uwch Dîm Rheoli'n berchen ar bob risg a nodir a chaiff y gofrestr risg ei rhannu gyda phob aelod o staff.
- Ymagwedd gref at lywodraethu a rheoli mewnol; gan weithio gydag archwilio mewnol i adolygu ac atgyfnerthu'r trefniadau presennol.
- Mae'r Pwyllgor Archwilio'n derbyn ac yn ystyried holl adroddiadau ac argymhellion archwilwyr mewnol gan gynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.
- Polisiâu a gweithdrefnau ariannol sy'n amlinellu cyfrifoldebau materion ariannol, systemau ar gyfer rheoli gwariant yn ariannol yn ogystal ag adrodd ar gyllideb gwariant wirioneddol yn rheolaidd.
- Mae trefniadau wedi'u rhoi ar waith i ddiogelu gwybodaeth a gedwir gan y Comisiwn. Cafodd y trefniadau hyn eu hadolygu gan archwilio mewnol yn ystod 2010/11.
- Adroddiad blynyddol gan fy archwilwyr mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd rheoli mewnol a llythyr rheoli blynyddol gan fy archwilwyr allanol.

Adolygu effeithiolrwydd

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheoli mewnol.

Caiff fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheoli mewnol ei lywio gan waith fy archwilwyr mewnol (Deloitte) a'm Huwch Dîm Rheoli sy'n gyfrifol

am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol a sylwadau a wnaed gan fy archwilwyr allanol (Swyddfa Archwilio Cymru) fel y'u ceir yn y llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

Rwyf hefyd wedi cael cyngor ar oblygiadau canlyniad fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheoli mewnol gan fy Mhwyllgor Archwilio.

Mae fy adolygiad wedi nodi bod cynnydd pellach wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn o ran gwella trefniadau Parhad Busnes yn y Comisiwn a datblygu gweithdrefnau cynllunio a chaffael effeithiol a chynllun i fynd i'r afael ag argymhellion a sicrhau gwella parhaus o ran y systemau sydd ar waith.

Mae barn yr archwilwyr mewnol yn datgan bod gan y Comisiwn system rheoli mewnol sy'n gadarn yn ei hanfod yn seiliedig ar y gwaith a wnaed ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011, a ddylai roi sicrwydd sylweddol o ran cyflawni amcanion y Comisiwn.

Nid oedd unrhyw feysydd sylweddol a oedd yn peri pryder y mae angen eu hatgyfnerthu a'u gwella.

Nodwyd y meysydd canlynol fel arfer da:

- Mae'r weithdrefn staff "Sut i ymdrin â cheisiadau gwybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth" yn darparu canllawiau cynhwysfawr i staff ar sut i ymdrin â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth; ac
- Mae cynllun cyhoeddi'r Comisiwn ar gael ar wefan y Comisiwn ac mae'n darparu dolenni i'r dogfennau allweddol y cyfeirir atynt gydag ychydig o achosion lle y byddai angen i ddefnyddiwr anfon neges e-bost at y Comisiwn am ragor o wybodaeth.

Yn fyr, rwy'n fodlon bod gwaith yn mynd rhagddo i roi'r holl argymhellion a wnaed gan archwilio mewnol ar waith yn ystod 2010/11 a bod y system rheoli mewnol wedi datblygu'n effeithiol yn ystod y flwyddyn.



Ruth Marks

Comisiynydd a Swyddog Cyfrifyddu

28 Gorffennaf 2011

Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011

AILDDATGANWYD

	Nodyn	2010/11 £000	2009/10 £000
Gwariant			
Costau staff	2	1068	825
Dibrisio / Amorteiddio	3	95	94
Gwariant arall	3	682	521
		<u>1,845</u>	<u>1,440</u>
Incwm			
Llog		-	-
Cyfanswm Gwariant Net ar ôl llog		<u>1,845</u>	<u>*1,440</u>

* Yn unol â chyngor Trysordy EM, dilëwyd "cost tâl cyfalaf" o gyfrifon 2010/11 ac felly mae angen ailddatgan y flwyddyn flaenorol sef 2009/10 i'w chymharu.

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

O 31 Mawrth 2011

	Nodyn	31 Mawrth 2011		31 Mawrth 2010	
		£000	£000	£000	£000
Asedau anghyfredol:					
Gwelliannau prydles	4	112		159	
Offer swyddfa / TGCh	4	30		51	
Asedau anghyffwrddadwy	5	34		56	
Cyfanswm asedau anghyfredol			176		266
Asedau Cyfredol:					
Symiau masnach derbyniadwy	7	41		38	
Arian parod a symiau sy'n gyfwerth ag arian parod	8	567		562	
Cyfanswm asedau cyfredol			608		600
Cyfanswm asedau			784		866
Atebolrwydd cyfredol:					
Symiau masnach taladwy	9	27		31	
Atebolrwydd arall	9	55		90	
Cyfanswm atebolrwydd cyfredol			82		121
Asedau anghyfredol yn ychwanegol at/llai asedau cyfredol net/atebolrwydd			702		745
Atebolrwydd anghyfredol					
Darpariaethau	10		6		4
Cyfanswm atebolrwydd anghyfredol			6		4
Asedau llai atebolrwydd			696		741
Ecwiti trethdalwyr					
Cronfeydd cyffredinol wrth gefn			696		741
			696		741

Ruth S. Marks

Ruth Marks

28 Gorffennaf 2011

Comisiynydd a Swyddog Cyfrifyddu

Datganiad o Lifau Arian

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011

AILDDATGANWYD

		1 Ebrill 2010 - 31 Mawrth 2011	1 Ebrill 2009 - 31 Mawrth 2010
	Nodyn	£000	£000
Llifau arian o weithgareddau gweithredu			
Gwariant net ar ôl llog		(1,845)	(1,440)
Addasiadau ar gyfer eitemau nad ydynt yn rhai arian parod *	3	95	94
(Cynnydd)/Gostyngiad mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill	7	(3)	(16)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn masnach a symiau taladwy eraill	9	(39)	(15)
Colled wrth Waredu Offer	4	4	1
Darpariaethau	10	2	4
All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu		(1,786)	(1,372)
Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi			
Prynu eiddo, gwaith ac offer	4	(9)	(55)
Prynu asedau anghyffwrddadwy	5	-	(45)
Elw gwaredu eiddo, gwaith ac offer		-	-
All-lif arian o weithgareddau buddsoddi		(9)	(100)
Llifau arian parod net o weithgareddau ariannu			
Arian gan Lywodraeth Cymru		1,800	1,700
Ariannu net		1,800	1,700
Cynnydd/(gostyngiad) net mewn symiau sy'n cyfateb i arian parod yn y cyfnod		5	228
Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r cyfnod	8	562	334
Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod	8	567	562

*Yn unol â chyngor Trosordy EM, dilëwyd "cost tâl cyfalaf" o gyfrifon 2010/11 ac felly mae angen ailddatgan y flwyddyn flaenorol sef 2009/10 i'w chymharu.

Datganiad o newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011

Cronfa Gyffredinol Wrth Gefn

	AILDDATGANWYD	
	1 Ebrill 2010- 31 Mawrth 2011 £000	1 April 2009- 31 March 2010 £000
Balans ar 1 Ebrill	741	481
Newidiadau yn ecwiti'r trethdalwr		
Gwariant net	(1,845)	*(1,440)
Cyfanswm incwm a threuliau cydnabyddedig	(1,104)	(959)
Arian gan Lywodraeth Cymru	1,800	1,700
Balans ar 31 Mawrth	696	741

*Yn unol â chyngor Trosordy EM, dilëwyd "cost tâl cyfalaf" o gyfrifon 2010/11 ac felly mae angen ailddatgan y flwyddyn flaenorol sef 2009/10 i'w chymharu.

Dim yw'r effaith gyffredinol o ganlyniad i'r ailddatgan yng nghyfrifon 2009/10 a 2010/11 gan mai dim ond yr incwm a threuliau cydnabyddedig (h.y. gwariant llai cost cyfalaf) a gynhwyswyd yn y Cronfeydd Cyffredinol Wrth Gefn.

Nodiadau i'r Cyfrifon

1. Datganiad o bolisiau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM). Mae'r polisiau cyfrifyddu a geir yn y FReM yn berthnasol i'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

Tra bo'r FReM yn caniatáu dewis o ran polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu a farnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau penodol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru at ddiben rhoi golwg gwir a theg. Disgrifir y polisiau penodol a fabwysiadwyd gan y Comisiynydd isod. Maent wedi'u rhoi ar waith yn gyson o ran ymdrin ag eitemau a ystyrir i fod yn faterol i'r cyfrifon.

1.1 Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol a addaswyd i gyfrif am ailbrisió'r asedau anghyfredol.

1.2 Asedau anghyfredol

Caiff asedau anghyfredol eu cynnwys ar gost, gan yn nhyb y Comisiynydd; na fyddai unrhyw addasiadau sy'n deillio o'r ailbrisió'n faterol.

Mae'r Comisiynydd yn berchen ar yr holl asedau anghyfredol.

1.3 Asedau Anghyfredol Cyffwrddadwy

Lleiafswm lefel cyfalafu ased anghyfredol cyffwrddadwy yw £1,000 yn cynnwys TAW na ellir ei ad-ennill. Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am yr hawl i'r holl eiddo. Caiff yr holl eiddo a feddiannir gan y Comisiwn ei brydlesu. Ni chaiff asedau anghyfredol cyffwrddadwy eu hailbrisió, gan yn nhyb y Comisiynydd; na fyddai'r symiau dan sylw yn faterol.

1.4 Asedau Anghyfredol Anghyffwrddadwy

Caiff trwyddedau meddalwedd a meddalwedd technoleg gwybodaeth eu cyfalafu fel asedau anghyfredol anghyffwrddadwy a'u hamorteiddio ar sail llinell syth dros eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig (4 blynedd fel arfer).

1.5 Dibrisio / Amorteiddio

Caiff dibrisio/amorteiddio ei ddarparu ar gyfradd a gyfrifir i ddibrisio'r asedau anghyfredol cyffwrddadwy ar ffurf rhandaliadau cyfartal dros gyfnod eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig. Mae oes asedau fel a ganlyn fel arfer:

Gwelliannau prydlles	Tymor y broses hyd at y cymal torri
Offer swyddfa	5 mlynedd
Offer sy'n gysylltiedig â TGCh	4 mlynedd

1.6 Incwm a gwariant

Mae incwm a chostau yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

Nid yw Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi'i gofrestru am TAW ac felly ni all adennill TAW. Dim ond un elfen weithredol sydd â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru ac adroddir ar yr holl wariant sy'n benodol i brosiectau o dan yr elfen hon.

1.7 Cyfnewid Dramor

Caiff trafodion mewn arian tramor eu trosi i sterling ar ddyfarniad y gyfradd gyfnewid ar ddyddiad pob trafodyn. Caiff imprestau arian tramor eu trosi i sterling ar ddyfarniad y gyfradd gyfnewid ar adeg yr ariannu.

1.8 Pensiynau

Mae'r Comisiynydd a staff a gyflogir yn uniongyrchol yn gymwys i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Cynllun buddion diffiniedig aml-gyflogwr heb ei ariannu yw hwn. Codir tâl am gyfraniadau'r cynllun i'r cyfrif gwariant net pan fo angen eu talu yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiynau Sifil i (www.civilservice.gov.uk/my-civil-service/pensions).

1.9 Tâl Prydles Weithredol

Codir tâl ar gyfer rhent sy'n daladwy o dan brydlesi gweithredol i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y cyfnod y mae'n ymwneud ag ef.

1.10 Cost Cyfalaf

Yn 2010/11, cyflwynodd FReM newid i'r ffordd y dylid cyfrif am gost gyfalaf dybiannol; mae'r newid i bob pwrpas yn dileu'r gost yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a'r credyd cyfatebol yn y Datganiad o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr. £9,000 oedd y swm a ddilëwyd. Dim yw'r effaith gyffredinol o ganlyniad i'r ailddatganiad hwn yng nghyfrifon 2009-10 a 2010-11, gan mai dim ond yr incwm a threuliau cydnabyddedig a gynhwyswyd yn y cronfeydd wrth gefn cyffredinol. Oherwydd natur y newidiadau, nid oes unrhyw newid i'r Datganiad o Sefyllfa Ariannol ac o ganlyniad, nid yw'r datganiad hwn wedi'i ailddatgan.

2. Niferoedd staff a chostau cysylltiedig

Mae costau staff yn cynnwys:

	2010/11 £000	2009/10 £000
Staff a gyflogir yn barhaol		
Cyflogau	822	544
Costau Nawdd	60	43
Cymdeithasol		
Costau Pensiwn Eraill	149	99
Isgyfanswm	1,031	686
Costau Secondio ac asiantaeth mewnol	37	139
Cyfanswm costau net	1,068	825

*Mae £11,146 (£9,560 2009/10) wedi'i chynnwys o fewn costau staff sy'n ymwneud â phensiwn pedwar aelod o'r Pwyllgor Archwilio.

Roedd cyfanswm nifer yr unigolion cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd gan y Comisiynydd yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys uwch reolwyr) fel a ganlyn:

	2010/11	2009/10
Staff Parhaol	21.34	13.96
Secondiadau Staff	0.92	2.03
Staff Dros Dro/Achlysurol	0.19	2.44
Penodiadau Tymor Sefydlog	4.59	1.00
Cyfanswm	27.04	19.43

Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Cynllun buddion diffiniedig aml-gyflogwr heb ei ariannu yw Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ond ni all swyddfa'r Comisiynydd nodi ei gyfran o'r asedau ac atebolrwydd tanategol.

Gwnaeth actiwari'r cynllun brisio'r cynllun ar 31 Mawrth 2007.

Mae manylion i'w cael yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiynau Sifil (www.civilservice.gov.uk/my-civil-service/pensions).

Ar gyfer 2010/11, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £149k yn daladwy i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar un o'r pedair cyfradd yn yr ystod 16.7% at 24.3% o gyflog pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog.

Mae Actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd fel arfer yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun.

Caiff y cyfraddau cyfrannu eu pennu i dalu cost y buddion sy'n cronni yn ystod 2010-11 ac sydd i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol ac nid y buddion a delir yn ystod y cyfnod hwn i'r pensiynwyr presennol.

Gall gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, pensiwn rhanddeiliaid gyda chyfraniad gan gyflogwr. Nid oes gan unrhyw weithwyr y Comisiwn y math hwn o gyfrif ar hyn o bryd ac felly dim oedd y cyfraniadau.

Nid oedd unrhyw achosion o ymddeoliad cynnar oherwydd iechyd gwael yn ystod y flwyddyn ac nid oedd unrhyw atebolrwydd pensiwn ychwanegol a gronnwyd yn ystod y flwyddyn.

3. Gwariant Arall

Mae gwariant arall yn cynnwys:

	AILDDATGANWYD	
	2010/11	2009/10
	£000	£000
Rhent o dan brydlesi gweithredol	62	61
Costau llety eraill	61	68
Technoleg gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu	20	33
Ffioedd Proffesiynol	47	80
Hyfforddiant a datblygiad	26	11
Teithio a chynhaliaeth	26	17
Ffioedd Archwilio – Archwilio Mewnol	9	16
Ffioedd Archwilio – Archwilio Allanol	16	15
Darpariaeth ar gyfer ailaddurno eiddo	2	4
Prosiectau Penodol	275	83
Treuliau gweinyddol eraill	134	132
	678	520
<u>Eitemau nad ydynt yn arian parod:</u>		
Colled wrth Waredu	4	1
Dibrisio	73	71
Amorteiddio	22	23
Cyfanswm	777	*615

* Yn unol â chyngor Trosordy EM, dilëwyd “cost tâl cyfala” o gyfrifon 2010/11 ac felly mae angen ailddatgan y flwyddyn flaenorol sef 2009/10 i’w chymharu.

Prosiectau Penodol

Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Comisiwn y gwariant canlynol ar gyfer rhaglenni sydd wedi'u dosbarthu o dan amcanion y Comisiwn.

Nid yw'r gwariant a ddatgelir isod yn cynnwys unrhyw ddosraniad o gostau cyflog staff y Comisiwn ac mae'n adlewyrchu costau uniongyrchol ychwanegol yn unig.

Bydd gwariant pellach o ran cyflawni'r amcanion hyn dros y blynyddoedd sydd i ddod fel y'u hamlinellir yng Nghynllun Strategol 2010/13.

Rhaglenni	2010/11 £000	2009/10 £000
Hybu ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru	127	44
Hybu darparu cyfleoedd i ddileu gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn yng Nghymru	45	8
Annog arfer gorau o ran trin pobl hŷn yng Nghymru	52	2
Parhau i adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd y gyfraith sy'n effeithio ar fudd pobl hŷn yng Nghymru	13	2
Caniatáu cyflawni swyddogaethau mewn ffyrdd sy'n briodol ac yn rheolaidd, yn ddoeth ac yn economaidd, defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn effeithiol a nodi a rheoli risgiau	38	27
Cyfanswm	275	83

4. Asedau anghyfredol cyffwrddadwy

	Technoleg Gwybodaeth £000	Gwelliannau Prydles £000	Offer Swyddfa £000	Cyfanswm £000
Cost neu brisiad				
Ar 1 Ebrill 2010	43	259	36	338
Ychwanegiadau	-	9	-	9
Gwarediadau	(6)	-	-	(6)
Ar 31 Mawrth 2011	37	268	36	341
Dibrisio				
Ar 1 Ebrill 2010	14	100	14	128
Tâl yn ystod y flwyddyn	10	56	7	73
Gwarediadau	(2)	-	-	(2)
Ar 31 Mawrth 2011	22	156	21	199
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2011	15	112	15	142
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2010	29	159	22	210

Nid oedd unrhyw amharu ar asedau a chânt eu dangos ar gost a ystyrir i fod yn 'werth teg'.

5. Asedau anghyfredol anghyffwrddadwy

	Trwyddedau meddalwedd £000	Technoleg Gwybodaeth £000	Cyfanswm £000
Cost neu ddibrisiad			
Ar 1 Ebrill 2010	46	45	91
Ychwanegiadau	-	-	-
Gwarediadau	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2011	46	45	91
Amorteiddio			
Ar 1 Ebrill 2010	23	12	35
A godwyd yn ystod y flwyddyn	11	11	22
Gwarediadau	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2011	34	23	57
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2011	12	22	34
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2010	23	33	56

6. Offerynnau Ariannol

Gan y caiff gofynion arian y Comisiynydd eu bodloni drwy arian a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, mae gan offerynnau ariannol (buddsoddiadau, deilliadau ac offerynnau ariannol eraill) rôl fwy cyfyngedig o ran creu risg nag a fyddai'n berthnasol i gorff sector nad yw'n gyhoeddus.

Mae'r rhan fwyaf o offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau i brynu eitemau nad ydynt yn ariannol yn unol â gofynion prynu a defnyddio disgwylidig y Comisiynydd ac felly daw'r Comisiynydd i ychydig iawn o risg credyd, hylifedd neu farchnad.

7. Symiau masnach derbyniadwy

	2010/11 £000	2009/10 £000
Symiau dyledus o fewn un flwyddyn:		
Symiau masnach derbyniadwy	-	-
Rhagdaliadau ac incwm a gronnwyd	41	38
	41	38

Nid oedd unrhyw symiau derbyniadwy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

8. Arian a symiau sy'n cyfateb i arian

	2010/11 £000	2009/10 £000
Balans ar 1 April	562	334
Newid net mewn balansau arian a symiau sy'n cyfateb i arian	5	228
Balans ar 31 Mawrth	567	562
Cynhaliwyd y balansau canlynol ar 31 Mawrth ar:		
Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth*	516	517
Banciau masnachol ac arian mewn llaw	51	45
Buddsoddiadau byr dymor	-	-
Balans ar 31 Mawrth	567	562

*Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth yw darparwr gwasanaethau bancio a rennir i'r llywodraeth a'r sector cyhoeddus eang. Mae'n rhan o Gyllid a Thollau EM ac yn ymgorffori'r hyn a oedd yn Swyddfa'r Tâl-feistr Cyffredinol gynt. Yn 2010/11, newidiodd prif ddarparwr gwasanaethau trafodion bancio o Fanc Lloegr i Citibank.

9. Symiau masnach taladwy ac atebolrwydd cyfredol arall

	2010/11 £000	2009/10 £000
Symiau o fewn un flwyddyn		
Trethi eraill a nawdd cymdeithasol	22	19
Symiau masnach taladwy	5	12
Croniadau ac incwm gohiriedig	55	90
	82	121

Nid oedd unrhyw symiau masnach taladwy ac atebolrwydd arall yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

10. Darpariaeth Atebolrwydd a Thâl

	2010/11 £000	2009/10 £000
Balans ar 1 Ebrill	4	0
Darparwyd mewn blwyddyn	2	4
Defnyddio'r ddarpariaeth mewn blwyddyn	0	0
Balans ar 31 Mawrth	6	4

Gwneir darpariaeth ar gyfer ailaddurno ein swyddfeydd yn ystod tymor y brydles ac wrth i'r brydles ddod i ben.

11. Ymrwymadau cyfalaf

	2010/11 £000
Ymrwymadau cyfalaf contract ar 31 Mawrth 2011 lle na wnaed unrhyw ddarpariaeth	-

12. Ymrwymadau o dan brydlesi

(a) Prydlesi gweithredol

Rhoddir cyfanswm taliadau prydles leiaf arfaethedig o dan brydlesi gweithredol yn y tabl isod a'u dadansoddi yn ôl y cyfnod y bydd y brydles yn dod i ben.

	2010/11 £000	2009/10 £000
Mae rhwymedigaethau o dan brydlesi gweithredol yn cynnwys:		
Tir ac adeiladau:		
Dod i ben o fewn 1 flwyddyn	-	-
Dod i ben ar ôl 1 flwyddyn ond heb fod yn fwy na phum mlynedd	144	203
Yn hwyrach na phum mlynedd	-	-
	144	203

	2010/11 £000	2009/10 £000
Mae rhwymedigaethau o dan brydlesi gweithredol yn cynnwys:		
Arall: Offer Swyddfa		
Dod i ben o fewn 1 flwyddyn	-	-
Dod i ben ar ôl 1 flwyddyn ond heb fod yn fwy na phum mlynedd	1	1
Yn hwyrach na phum mlynedd	-	-
	1	1

(b) Prydlesi cyllid a chontractau PFI

Nid oes unrhyw rwymedigaethau o dan brydlesi cyllid na chontractau PFI.

Nid yw'r Comisiynydd wedi ymrwmo i gontractau nad oes modd eu canslo (nad ydynt yn brydlesi na chontractau PFI).

13. Atebolrwydd wrth gefn a ddatgelir o dan IAS 37

Nid yw'r Comisiynydd wedi cael unrhyw atebolrwydd wrth gefn nas datgelir mewn rhannau eraill o'r cyfrifon hyn.

14. Trafodion partïon cysylltiedig

Yn 2010/11, derbyniodd y Comisiwn gyllid o £1.8m gan Lywodraeth Cymru. Ystyrir Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig. Yn ogystal, mae gan y Comisiwn nifer fach o drafodion gyda chyrff eraill yn cael eu noddi neu'u hariannu gan Lywodraeth Cymru.

Cyfarwyddwr Sefydliad Materion Cymreig yw'r Comisiynydd. Yn ystod 2009/10, ymrwymodd y Comisiwn â contract â'r Sefydliad Materion Cymreig fel rhan o brosiect yn edrych ar agweddau at heneiddio a gynhaliwyd o 2009-2011. £55,832 (£15,052 yn 2009/10) oedd y swm a dalwyd yn 2010/11. Ni chymerodd y Comisiynydd ran yn y broses o ddyfarnu'r contract. Cwblhawyd y contract yn 2010/11.

Nid oedd unrhyw aelodau o'r Uwch Dîm Rheoli, nac unrhyw aelod o'u teulu'n gysylltiedig yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ag unrhyw drafodion gyda'r Comisiwn yn ystod y flwyddyn, ar wahân i hawlio treuliau a thaliadau cyflog arferol.

15. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ni chododd unrhyw ddigwyddiadau sylweddol ar ôl dyddiad y Cyfnod Adrodd.

TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Mae'r rhain yn cynnwys Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr, Datganiad ar y Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llif Arian Parod, Datganiad o Newidiadau o ran Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gydabyddiaeth y nodir ei bod wedi'i harchwilio yn yr adroddiad hwnnw.

Priod gyfrifoldebau'r Comisiynydd Pobl Hŷn a'r archwilydd

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth, a'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 a chyfarwyddiadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth i'w harchwilio yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Cynhelir archwiliad er mwyn cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a pha un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n

ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Mae hefyd yn ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn Sylwadaeth y Rheolwyr er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

Barn ar y Datganiadau Ariannol

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar 31 Mawrth 2011 a'i gwariant net ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifau arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

Barn ar Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ymhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006;
- mae'r wybodaeth sy'n cynnwys gwybodaeth ariannol, a gynhwysir o fewn Sylwadaeth y Rheolwyr a'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth nas archwiliwyd yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid yw'r Datganiad am Reolaeth Fewnol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- ni ddatgelwyd gwybodaeth a ddynodwyd gan Drysorlys EM o ran cydnabyddiaeth a thrafodion eraill; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ



Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

**Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL**

**Ffôn: 08442 64 06 70
Ffacs: 08442 64 06 80
ebost: gofyn@olderpeoplewales.com
www.olderpeoplewales.com**